



Ein cyf/Our ref: MA/FM/2492/20

Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

30 Gorffennaf 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)  
(Diwygio) (Rhif 3) 2020**

Yn unol ag adranau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn iddo gael ei osod ac felly nid yw'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod arferol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ychwanegu'r gwledydd a/neu diriogaethau a ganlyn at y rhestr o wledydd sydd wedi'u heithrio:

- Latfia;
- Estonia;
- Slofacia;
- Slofenia;
- St Vincent a'r Grenadines.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Rheoliadau yn tynnu Lwcsembwrg o'r rhestr o wledydd eithriedig oherwydd y cynnydd yn y risg i iechyd cyhoeddus a achosir gan gyrraedd o Lwcsembwrg.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu at y rhestr o ddiwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y caniateir i unigolion sy'n rhan ohonynt gael eu heithrio, ac maent yn gwneud mân ddiwygiadau technegol pellach i'r diffiniad o drwyddedai carthffosiaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Bu'n rhaid tynnu Lwcsembwrg ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dilyn cyngor sy'n dangos bod y perygl i iechyd y cyhoedd o deithio i mewn yn dod o Lwcsembwrg wedi codi. Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Handwritten signature of Rebecca Evans in black ink.

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd